

GORCHYMYN SIR BENFRO (SOUTH ROAD, PENFRO)
(GWAHARDD GYRRU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG) 2022
A HYSBYSIAD I DDARPARU NODWEDDION GOSTEGU TRAFFIG.

Rhoddir **HYSBYSIAD** trwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn bwriadu gwneud gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) i (3) a 4(2) o a Rhan IV o Atodlen a (2) a Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf"), ac effaith hyn fydd gwahardd gyrru (ac eithrio beiciau pedlau) ar hyd y ffordd honno a gynhwysir yn Atodlen 1 i'r hysbysiad hwn.

Mae'r Cyngor hefyd, wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 90A o

Ddeddf Priffyrdd 1980, yn cynnig darparu croesfan uwch fel y nodir yn Atodlen 2 i'r hysbysiad hwn.

Bwriedir gosod cyfyngiadau aros llinellau melyn dwbl y naill ochr i'r groesfan uchel i wahardd parcio fel y nodir yn Atodlen 3 i'r hysbysiad hwn.

Ceir manylion llawn yn y gorchymyn drafft, y gellir edrych arno ar-lein, ynghyd â map yn dangos y rhan o ffordd yr effeithir arni, yn <https://www.sir-benfro.gov.uk/rheoleiddio-traffig-ffyrdd>

Gellir gwneud unrhyw wrthwynebiad neu sylwadau mewn perthynas â'r cynigion uchod, ynghyd â'r seiliau dros eu gwneud, naill ai trwy lenwi'r ffurflen adborth ar-lein neu yn ysgrifenedig i'r islofnodedig erbyn 16 Chwefror 2022. Dyfynnwch: SOUTH RD

Dyddiedig y 26ain diwrnod hwn o Ionawr 2022

Darren Thomas

Pennaeth Seilwaith

Cyngor Sir Penfro

ATODLEN 1

South Road	O bwynt tua 61 metr i'r gogledd-orllewin o West Street i bwynt 68 metr i'r de-ddwyrain o gyffordd South Road a Merchants Park, sef pellter o tua 11 metr. (bydd eithriad yn cael ei roi yn y gorchymyn traffig i ganiatáu traffig i deithio dros y rhan hon o'r ffordd mewn argyfwng, er enghraifft llifogydd ar y comin neu o dan gyfarwyddyd swyddog heddlu mewn iwniform neu weithredydd rheoli traffig cymwys dan gyfarwyddyd)
------------	--

ATODLEN 2

Lleoliad South Road	Math
Ar bwynt 61 metr i'r gogledd-orllewin o West Street a 68 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â Merchants Park.	Bwrdd croesi uchel 65mm o uchder (8900mm o hyd x 3600 o led)

ATODLEN 3

South Road	
Ochrau'r gogledd a'r de	i) O bwynt 49 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â Merchants Park tua'r dwyrain i'r bwrdd croesi uchel ac o'i amgylch, i bwynt 49 metr i'r de o'r gyffordd â Merchants Park ar ochr ddeheuol y ffordd. ii) O bwynt 42 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â West Street tua'r gorllewin i'r bwrdd croesi uchel ac o'i gwmpas, i bwynt 42 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â West Street ar ochr ddeheuol y ffordd.


DATGANIAD RHESWM

Mae cynigion wedi cael eu datblygu i fynd i'r afael â phryderon preswylwyr ynglŷn â chynnydd mewn traffig trwodd sy'n dilyn "llwybr tarw", cyflymder cerbydau a diogelwch cerddwyr ar South Road.

Mae'r cynnig yn cynnwys darparu croesfan uwch ar gyfer cerddwyr. Bydd bolardiau y gellir eu symud ymaith yn cael eu gosod i gau'r briffordd ac yn atal modurwyr rhag teithio i St Daniels Hill/Monkton ac oddi yno ar lwybr tarw. Os bydd argyfwng neu pan fydd llwybr amgen wedi'i rwystro, gellir adfer mynediad i gerbydau. Bydd mynediad llawn i feiciau'n parhau, gan ganiatáu i feicwyr deithio ar hyd South Road i gyd. I sicrhau bod y ddau ben troi yn aros yn glir o gerbydau wedi'u parcio, cynigir hefyd fod cyfyngiadau parcio ar y stryd (Llinellau Melyn Dwbl) yn cael eu gosod.

Mae'r mesurau hyn yn cael eu hyrwyddo yn rhan o becyn o ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd o fewn y Gronfa Llwybrau Diogel yn y Gymuned.

General Arrangement Layout (scale 1:250)



Location Plan (scale 1:2500)



EXTRACT FROM ORDNANCE SURVEY SHEET NO. SM 98 01

© Crown copyright and database rights 2015 Ordnance Survey 100023344. Rhoddir trwydded ddiwydiad, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol a y cyfod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chech gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw flur.

REV.	DESCRIPTION	BY	DATE



PEMBROKESHIRE COUNTY COUNCIL
CYNGOR SIR PENFRO

Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, HWLFFORDD, Sir Benfro. SA61 1TP
Ffon: 01437 764551
Pembrokeshire County Council, County Hall, HAVERFORDWEST, Pembrokeshire. SA61 1TP
Tel: 01437 764551
www.pembrokeshire.gov.uk

DRAWING TITLE
South Road Improvements
Road Closure Option 3

DRAWN BY	AJMP	Jun21	SCALE	AS SHOWN
CHECKED	AJMP	Jun21		

PROJECT TITLE	SRiC Golden Grove
CAD REF.	DRAWING No. CA1953 21 SRd F103
PROJECT PHASE	REV.

**GORCHYMYN SIR BENFRO (SOUTH ROAD, PENFRO) (GWAHARDDIAD GYRRU
A CHYFYNGIADAU TRAFFIG) 2022**

MAE CYNGOR SIR PENFRO (Y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”) wrth weithredu ei bwerau o dan adrannau 1(1), 2(1) i (3) a 4(2) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (“y Ddeddf”) a’r holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i’r Ddeddf, Drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

1. Ni chaiff unrhyw berson, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl yr heddlu mewn lifrai neu Weithiwr Rheoli Traffig cymwys o dan gyfarwyddyd, achosi na chaniatáu i unrhyw Gerbyd Modur deithio ar hyd y rhannau o’r ffordd a bennwyd yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.
2. Bydd Gorchymyn Cyngor Sir Penfro (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Cydgrynhoi) 2011 ac amrywiadau dilynol yn cael eu diwygio yn unol â’r manylion yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.
3. Bydd y gwaharddiadau a’r cyfyngiadau a bennir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at ac nid yn rhanddirymiad o unrhyw gyfyngiad na gofyniad a bennir gan unrhyw reoliadau a wnaed neu sy’n weithredol fel pe’u gwnaed o dan y Ddeddf neu gan neu o dan unrhyw ddeddfiad arall.
4. Gellir enwi’r Gorchymyn hwn yn “Gorchymyn Sir Benfro (South Road, Penfro) (Gwaharddiad Gyrru a Chyfyngiadau Traffig) 2022 a Bydd yn dod yn weithredol ar y ** diwrnod o **** 2022

RHODDWDYD dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y ** diwrnod hwn o **** Dwy Fil Dau Ddeg Dau.

Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**
CYNGOR SIR PENFRO yma
ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig

ATODLEN 1

(GWAHARDDIAD GYRRU)

South Road

O bwynt oddeutu 61 metr i'r gogledd orllewin o West Street i bwynt 68 metr i'r de ddwyrain o gyffordd South Road a Merchants Park, sef pellter o ryw 11 metr. (bydd eithriad yn cael ei roi yn y Gorchymyn Traffig i ganiatáu i draffig deithio dros y rhan hon o'r ffordd yn achos argyfwng, er enghraifft llifogydd ar Y Comin neu o dan gyfarwyddyd Swyddog yr Heddlu mewn lifrai neu Weithiwr Rheoli Traffig cymwys o dan gyfarwyddyd)

ATODLEN

(DIM AROS UNRHYW BRYD)

Atodlen 2.1 – Dim Aros unrhyw bryd

Penfro

South Road – Ochr ogleddol/ddeheuol

- i) O bwynt 49 metr i'r de ddwyrain o'r gyffordd â Merchants Park tua'r dwyrain at ac o amgylch y bwrdd uwch i bwynt 49 metr i'r de o'r gyffordd â Merchants Park ar ochr ddeheuol y ffordd
- ii) O bwynt 42 metr i'r gogledd orllewin o'r gyffordd â West Street at ac o amgylch y bwrdd uwch i bwynt 42 metr i'r gogledd orllewin o'r gyffordd â West Street ar ochr ddeheuol y ffordd